**COFNOD O BENDERFYNIAD GAN AELOD CABINET**

**Penderfyniad a wnaed gan:**

Aelod Arweiniol dros Gynllunio, Diogelu'r Cyhoedd a Chymunedau Diogelach

**Dyddiad y penderfyniad:**

26 Ionawr 2021

**Dyddiad cyhoeddi'r penderfyniad:**

26 January 2021

**Penderfyniad:**

DATGANIAD TECHNEGOL RHANBARTHOL AGREGAU, AIL ADOLYGIAD - ARDYSTIO DOGFEN

Mae'r Cyngor yn cefnogi'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (Ail Adolygiad)

**Bwriad y penderfyniad:**

Mae Gweithgorau Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru a De Cymru wedi cynnal ail adolygiad o Ddatganiad Technegol Rhanbarthol Cymru. Mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol yn rhagamcanu galw am agregau yn y dyfodol er mwyn i Awdurdodau Cynllunio Lleol gynllunio datblygiad mwynol mewn modd rheoledig a chymesur.

**Rhesymau dros wneud y penderfyniad:**

Mae'r Ail Adolygiad wedi'i gyhoeddi ond mae'n rhaid i bob awdurdodau lleol ei gefnogi cyn i Lywodraeth Cymru ei gymeradwyo.

**Cysylltiadau a ddatganwyd:**

Dim cysylltiad i'w ddatgan.

**Ymgynghoriad:**

Trafodwyd ail adolygiad o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol, gan gynnwys yr argymhellion unigol, gydag aelodau o'r Grŵp Cynllunio Strategol ac aelodau eraill a oedd yn bresennol fel arsyllwyr mewn dau gyfarfod (ar 28 Hydref a 25 Tachwedd 2020). Canolbwyntiodd y ddwy drafodaeth yn bennaf ar y dull is-ranbarthol i gyflenwi mwynau a'r canlyniadau tebygol ar gyfer cais cynllunio arfaethedig yn Chwarel Dinbych. Daethpwyd i'r casgliad y dylid argymell i'r Aelod Arweiniol ei fod yn cefnogi'r ddogfen mewn egwyddor ond y dylai unrhyw ffurf ar 'gydweithio rhwng awdurdodau' gydag awdurdod cyfagos fod yn destun adroddiad a phenderfyniad ar wahân.

**Yr awdurdod i ddirprwyo'r penderfyniad i'r Aelod Cabinet:**

Gweler y Cynllun Dirprwyo.